Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Rhaglen Cynhwysiad Iechyd Cymru

## Disgrifiad o'r gwasanaethau sy'n darparu Gofal Iechyd Sylfaenol i grwpiau agored i niwed ledled Cymru

Mawrth 2024

Datblygwyd gan Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Nyrsys Cynhwysiad Iechyd Cymru

# Rhaglen Cynhwysiad Iechyd Cymru

## ASTUDIAETHAU ACHOS - Disgrifiad o wasanaethau yng Nghymru

Mae'r fanyleb Cynhwysiad Iechyd newydd ar gyfer clystyrau'n disgrifio gwasanaethau ar gyfer pobl nad ydynt efallai'n defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru er gwaethaf yr angen cynyddol.

Mae yna lawer o wasanaethau rhagorol ledled Cymru a fyddai'n dod o dan y categori 'Cynhwysiad Iechyd.'

Mae gan y gwasanaethau mewn gwahanol rannau o Gymru wahanol hanes a diwyg.

Nid oes gan bob ardal o Gymru wasanaethau.

Themâu cyffredin:

- Amlddisgyblaethol a chydweithredol o ran cynllunio a darpariaeth, gan gynnwys pobl â phrofiad personol.
- Gwasanaethau sy'n cyfuno galw-heibio, allgymorth ac mewngymorth gydag ymagwedd anfeirniadol, yn seiliedig ar drawma.
- Mae cyllid yn aml yn fyr-dymor ac yn ansicr.
- Mae'n anodd cael mynediad at rai gwasanaethau penodol gan gynnwys iechyd y geg a gwasanaethau deintyddol, iechyd meddwl, cymorth seicolegol, a thriniaeth ar gyfer trawma cymhleth.

## CONTENTS

Page

**Gwasanaeth Cynhwysiad Iechyd Caerdydd a'r Fro** CAVHIS ... 3
**Gwasanaeth Allgymorth Arbenigol ar gyfer Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau** BIP Cwm Taf ... 4
**Gwasanaeth Iechyd y Digartref** BIP Bae Abertawe ... 5
**Gwasanaeth Iechyd y Digartref Castell-nedd Port Talbot** BIP Bae Abertawe ... 6
**Gwasanaeth Mynediad Iechyd Bae Abertawe ar gyfer Ceiswyr Lloches** BIP Bae Abertawe ... 7
**Gwasanaeth Allgymorth Iechyd Rhywiol** BIP Bae Abertawe ... 8
**Prosiect Cefnogaeth, Llesiant, Eiriolaeth a Galluogi (SWAN)** BIP Bae Abertawe ... 9
**Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd a Arweinir gan Nyrsys** BIP Aneurin Bevan ... 10
**Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gwasanaeth Iechyd y Digartref** BIP Aneurin Bevan ... 11
**Model Llesiant Cymunedol** BIP Betsi Cadwaladr ... 12

**Mae'r sleidiau canlynol yn giplun o wasanaethau yng Nghymru. Mae'r rhain yn esblygu'n barhaus. Mae'n bosibl y bydd ardaloedd lleol yn ymwybodol o ragor o wasanaethau. A fyddech cystal â rhoi adborth i ni ynghylch y rhain**

# Gwasanaeth Cynhwysiad Iechyd Caerdydd a'r Fro (CAVHIS)

## Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Gwasanaeth dan arweiniad nyrsys ar gyfer oedolion sy'n profi digartrefedd ers 2000

Dechreuodd CAVHIS fel gwasanaeth sgrinio iechyd ar gyfer ceiswyr lloches, ffoaduriaid, goroeswyr masnachu mewn pobl, a'r rhai heb fynediad at arian cyhoeddus.

Yn 2021, roedd rhwydwaith cynhwysiad iechyd ac asesiad o anghenion wedi galluogi'r cylch gwaith i gael ei ymestyn i gynnwys:

- Pobl Ddigartref oedd wedi'u Hallgau
- Gweithwyr rhyw risg uchel
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid oedd newydd gyrraedd

Bydd gwasanaethau ar gyfer Roma, Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael y carchar, yn cael eu datblygu cyn bo hir.

## Gwasanaeth a Ddarperir

- Cofrestru Parhaol fel y bo'n briodol ar gyfer gofal iechyd sylfaenol
- Sgrinio iechyd, gan gynnwys clefydau trosglwyddadwy, iechyd rhywiol, iechyd corfforol a meddyliol
- Asesiadau anghenion cyfannol
- Cadw'n gyfoes ag imiwneiddio
- Gofal iechyd corfforol a meddyliol
- Clinig meddygol teulu
- Clinigau allgymorth meddygon teulu
- Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol
- Gwasanaethau Bydwreigiaeth
- Cefnogaeth digartrefedd

## Gweithlu

- Arweinydd Gwasanaeth B8a
- Arweinydd Iechyd Corfforol B7
- Nyrs Arweiniol B7
- Bydwraig Arbenigol B7
- Nyrsys Iechyd Cynhwysiad 4.00 Cyfwerth â Llawn-amser (CLlA) B6
- Ymwelydd Iechyd B6
- Rheolwr Gweithredol B6
- Rheolwr Gweithredol Cynorthwyol B4
- Gweithiwr Cynnal Gofal Iechyd 0.8 CLlA B3
- Derbynnydd/Cynorthwywyr Gweinyddol 2.22 CLlA B2
- Gweinyddol (Digartrefedd) 0.5 CLlA B2
- 21 sesiwn meddyg teulu (14 Llawn-amser, un locwm, chwe sesiwn anghlinigol)

## Maint a llwyth achosion

- 700-1000 y flwyddyn; disgwylir iddo gynyddu i 3,500

## Gwersi a Ddysgwyd

- Dynodi galluogwyr a chefnogwyr allweddol ar lefelau strategol a gweithredol.
- Creu gweledigaeth a gwerthoedd a rennir ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid
- Sefydlu llywodraethiant ac arweinyddiaeth system gyfan
- Mae argaeledd gwasanaethau cysylltiedig yn hollbwysig wrth ddatblygu modelau gofal sy'n ystyried rolau, cymysgedd sgiliau, a chymhlethdod.
- Dylid dechrau â dealltwriaeth glir o iechyd y boblogaeth yn y cyd-destun lleol
- Defnyddio templedi asesu strwythuredig i wella cysondeb sgrinio a chanfod achosion.
- Defnyddio codio cyson i wella ansawdd data a galluogi archwilio a gwerthuso

# Gwasanaeth Allgymorth Arbenigol ar gyfer Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

## Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Sefydlwyd y gwasanaeth yn 2020, yng nghlwstwr Taf Elái i dechrau. Mae'n drefniant cydweithredol rhwng arweinwyr adran tai Merthyr, Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Cwm Taf, sydd wedi'i gydlynu trwy'r Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol. Mae'n wasanaeth arbenigol ym maes iechyd meddwl a chamddefnydd sylweddau.

Mae gwasanaeth iechyd dan arweiniad nyrsys yn cynnwys y tri awdurdod lleol yn RhCT, Merthyr, a Phen-y-bont ar Ogwr. Gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a Sefydliadau'r 3ydd sector:

Ymhlith y grwpiau a gefnogir mae:

- Pobl sy'n profi digartrefedd
- Pobl sy'n gadael carchar a'r rhai yn y system cyfiawnder troseddol
- Camddefnydd o sylweddau ac alcohol
- Unigolion bregus eraill
- Gwasanaeth 'clinig mewn bocs' sy'n benodol ar gyfer gweithiwr rhyw.

## Gwasanaethau a ddarperir

- Sesiynau Galw-heibio Wythnosol (RhCT a Merthyr)
- Sesiynau dan arweiniad ymgynghorwyr Seiciatrig ddydd Llun a dydd Gwener
- Asesiadau iechyd
- Cwnsela ar sail trawma
- Eiriolaeth Trais Domestig Annibynnol
- Lleihau niwed, ymwybyddiaeth o orddos
- Gweithgareddau Dargyfeiriol sy'n diwallu anghenion a buddiannau unigolion
- Grŵp Gwasanaethau sy'n Cyfranogi
- Gwasanaeth Cyflogaeth (Cymorth yn y gwaith / allan o waith a mentora cymheiriaid)
- Sefydlwyd gwasanaeth brecwast ym Mhen-y-bont ar Ogwr
- Cynllun peilot gweithiwr cymdeithasol (RhCT)

## Gweithlu

- 1 Cydlynydd Tîm Cyfwerth â Llawn-amser (CLlA)
- 2x cefnogaeth weinyddol
- 3x Nyrsys B7 CLlA
- 4x Nyrsys B6 CLlA
- 4x B3 CLlA (dau Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd a dau Weithiwr Cymorth Barod)
- 1 Gweithiwr cymdeithasol CLlA (Peilot ar gyfer RhCT)

## Maint a llwyth achosion

- 502 o atgyfeiriadau'r flwyddyn

## Gwersi a Ddysgwyd

- Dangosodd asesiad o anghenion fod rhai pobl wedi'u cofrestru ond ddim yn cael mynediad at ofal
- Mae grŵp llywio'n cwrdd wyneb-yn-wyneb yn rheolaidd i ddod â'r holl bartneriaid ynghyd, gan gefnogi datblygiad gwasanaethau a chreu perthnasoedd gwaith cadarnhaol
- Hyrwyddo rôl allgymorth i sicrhau a chynnal darpariaeth gofal i unigolion agored i niwed
- Mae gwaith allgymorth yn canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth a darparu cefnogaeth i unigolion er mwyn iddynt oresgyn rhwystrau i ymgysylltu â gofal iechyd
- Mae ymagwedd Aml-asiantaethol ar y cyd gyda'r 3ydd sector, Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn hanfodol i wneud y gorau o'r gwasanaeth i'r unigolyn

# Gwasanaeth Iechyd y Digartref
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

### Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Gwasanaeth digartrefedd a gychwynnwyd gan y Cyreniaid 20 mlynedd yn ôl.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd y Digartref yn darparu gwasanaethau allgymorth a mewngymorth (hosteli, gwely a brecwast, llety dros-dro arall) a arweinir gan nyrsys yn ardal Abertawe. Ynghyd â sefydliad Wallich, maent yn darparu gwasanaeth allgymorth "Bws" i Abertawe, Mae Partneriaeth Feddygol Abertawe yn darparu'r Gwasanaeth Gwella Lleol (GGLl) hwn a arweinir gan nyrsys, wedi'i gydlynu a'i ddarparu gan weithlu nyrsio ymroddedig, gyda chefnogaeth practis meddygol brwdfrydig ac angerddol.

Ymhlith y grwpiau a gefnogir mae:

- Pobl sy'n profi digartrefedd
- Mae hefyd yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ar brawf, anghenion cymhleth, a.y.b.

### Gwasanaethau a ddarperir

- Gofal iechyd corfforol
- Gofal iechyd meddwl
- Cefnogaeth trawma
- Gofal iechyd ataliol gan gynnwys imiwneiddio a sgrinio
- Cyfeirio pobl at wasanaethau iechyd a llesiant eraill lle bo angen

Mae gwaith allgymorth yn rhan greiddiol o'r gwasanaeth.

- Mae'r tîm nyrsio'n ymgysylltu ac yn cynnig cymorth i unigolion sy'n profi digartrefedd er mwyn dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at ofal iechyd a chymorth

### Gweithlu

- Nyrs ragnodydd 0.8 B7
- Nyrs a nyrs iechyd meddwl 0.5 B6
- Mae Therapydd Galwedigaethol yn cefnogi Therapydd a ariennir gan y Loteri Genedlaethol sy'n gweithio ar draws gwasanaethau ac ardaloedd



### Maint a llwyth achosion

- Nid yw'r niferoedd yn hysbys eto (amcangyfrif o 300 y flwyddyn)

### Gwersi a ddysgwyd

- Mae ymgysylltu â meddygon teulu a chael cymorth ganddynt yn llywio'r gwasanaeth
- Mae gwaith asiantaeth sefydledig yn galluogi gwasanaethau i ddod at ei gilydd a darparu gofal iechyd cyflawn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mae cymorth gweithredol gan y Bwrdd Iechyd yn alluogwr allweddol
- Mae gwaith allgymorth yn cynorthwyo unigolion i oresgyn rhwystrau wrth ymwneud â gofal iechyd
- Dim amser penodol ar gyfer Meddygon Teulu – mae'n ffitio o amgylch y clinig

# Gwasanaeth Iechyd y Digartref Castell-nedd Port Talbot
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Dechreuodd y gwasanaeth hwn dan arweiniad nyrsys yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT) yn 2024, yn seiliedig ar fodel Abertawe. Mae Grŵp Meddygol Rosedale yn darparu'r Gwasanaeth Estynedig Lleol ar gyfer CNPT ac mae ganddo dri phractis ar draws Castell-nedd, Llansawel, a Phort Talbot sy'n cynnig darpariaeth iechyd i bobl ddigartref.

Gofal iechyd allgymorth a mewngymorth pendant, seiliedig ar bractis meddygol.

Mae nyrsys hefyd yn cydweithio â sefydliad Wallich i gynnig gwasanaeth allgymorth "Bws".

Ymhlith y grwpiau a gefnogir mae:

- Pobl sy'n profi digartrefedd

## Gwasanaethau a ddarperir

- Gofal iechyd corfforol
- Gofal iechyd meddwl
- Cefnogaeth trawma
- Gofal iechyd ataliol gan gynnwys imiwneiddio a sgrinio
- Cyfeirio pobl at wasanaethau iechyd a llesiant eraill lle bo angen

Mae gwaith allgymorth yn rhan greiddiol o'r gwasanaeth.

- Mae'r nyrs yn ymgysylltu ac yn cynnig cymorth i unigolion digartref er mwyn dileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at ofal iechyd a chymorth

## Gweithlu

- Nyrs B7 0.4 Cyfwerth â Llawn-amser
- Therapydd a ariennir gan y Loteri Genedlaethol sy'n gweithio ar draws gwasanaethau ac ardaloedd

## Maint a llwyth achosion

- Nid yw'r niferoedd yn hysbys eto



## Gwersi a ddysgwyd

- Mae cymorth arbenigol Iechyd Meddwl yn hanfodol. Ar hyn o bryd nid oes gan CNPT y ddarpariaeth hon er bod yna angen sylweddol ar gyfer unigolion sy'n ddigartref
- Mae gwaith asiantaeth sefydledig wedi cynorthwyo â datblygiad llyfn y gwasanaeth yn CNPT
- Wrth ddatblygu gwasanaethau ystyriwch anghenion ymlaen llaw a rhowch bethau yn eu lle o'r cychwyn cyntaf
- Mae cymorth gweithredol gan y Bwrdd Iechyd yn alluogwr allweddol

# Gwasanaeth Mynediad Iechyd Bae Abertawe ar gyfer Ceiswyr Lloches Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Mae gwasanaeth dan arweiniad nyrsys yn cefnogi unigolion sy'n mynd trwy'r broses ceiswyr lloches.

Dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i gysylltu unigolion â gwasanaethau gofal iechyd perthnasol ar gyfer eu hanghenion a dileu rhwystrau o fewn y system rhag cael mynediad at ofal iechyd a chymorth.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio cyfieithwyr yn rheolaidd i oresgyn unrhyw rwystr iaith.

Ymhlith y grwpiau a gefnogir mae:

- Ceiswyr lloches sy'n byw mewn llety a ddarperir gan y Swyddfa Gartref.
- Plant ar eu pen eu hunain sy'n geiswyr lloches
- Ceiswyr lloches sy'n derbyn cymhorthdal, sy'n byw gyda theulu/ffrindiau.

## Gwasanaethau a ddarperir

- Asesiad iechyd cychwynnol
- Asesiadau ac atgyfeiriadau iechyd meddwl ac Iechyd Rhywiol
- Cymorth ar gyfer cofrestru â meddyg teulu
- Atgyfeiriadau i wasanaethau'r trydydd sector i gynorthwyo llesiant cymdeithasol/emosiynol
- Asesiad diogelu/atgyfeirio
    - Caethwasiaeth fodern
    - Caethwasanaeth domestig a thrais yn y cartref
    - Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM)
    - Esgeuluso plant
- Sgrinio TB/profion Mantoux/Atgyfeiriad i glinig anadlol
- Imiwneiddiadau heb eu trefnu
- Cydlynu â nyrs ysgol / bydwreigiaeth

## Gweithlu

- Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol B7
- Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol 3x B6 0.6 Cyfwerth â Llawn-amser
- Gweinyddwr 1x 0.6 B3 CLIA



## Gwersi a ddysgwyd

- Mae partneriaethau a gweithio aml-asiantaeth yn allweddol, yn darparu cyfleoedd i ddysgu a chefnogi ei gilydd
- Mae cysylltiadau trydydd sector yn hollbwysig
- Mae gwaith allgymorth yn rhan graidd
- Mae angen parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd y boblogaeth fregus hon sy'n wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at ofal iechyd.

# Gwasanaeth Allgymorth Iechyd Rhywiol
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

### Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Sefydlwyd y gwasanaeth yn 2009, a gynhaliwyd gan un nyrs yn ardal Abertawe i ddechrau. Mae'r gwasanaeth hwn dan arweiniad nyrsys wedi datblygu ac ehangu ers 2012, ac mae'r gwasanaeth allgymorth iechyd rhywiol bellach yn cynnig cymorth i bobl ar draws Bae Abertawe, Port Talbot a Chastell-nedd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth carchardai, hosteli'r digartref ac ystod o sefydliadau sy'n rhoi cymorth i unigolion bregus, gan gynnwys dioddefwyr trais domestig, gweithwyr rhyw, plant sy'n agored i niwed ac unigolion sy'n profi digartrefedd.

Ymhlith y grwpiau a gefnogir mae:

- Gweithwyr Rhyw
- Unigolion sy'n ddigartref
- Y rhai sy'n gadael carchar, troseddwyr cyson a grwpiau bregus eraill

### Gwasanaethau a ddarperir

- Sgrinio Iechyd Rhywiol, gan gynnwys pob Feirws yn y Gwaed, a thriniaeth
- Atal cenhedlu, gan gynnwys darparu atal cenhedlu brys
- Sgrinio Ceg y Groth
- Atgyfeiriad system weinyddol cleifion
- PrEP a PEP ar gyfer HIV
- Brechiadau – Hepatitis B (Hep B), Feirws Papiloma Dynol (HPV)
- Cymorth iechyd meddwl
- Lleihau niwed
- Gofal am glwyfau
- Diogelu
- Tai
- Mynediad i feddyg teulu

### Gweithlu

- 1x Nyrs B7 0.8 Cyfwerth â Llawn-amser
- 2x Nyrs B6 0.8 B7 Cyfwerth â Llawn-amser

### Maint a llwyth achosion

- 500 y flwyddyn



### Gwersi a ddysgwyd

- Mae angen llwybrau clir ar gyfer atgyfeiriadau
- Atgyfnerthu pwysigrwydd codio cywir
- Hyrwyddo rôl allgymorth i sicrhau a chynnal darpariaeth gofal i unigolion agored i niwed
- Mae angen tîm penodol i gyflawni hyn

# Prosiect Cefnogaeth, Llesiant, Eiriolaeth a Galluogi (SWAN) Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Mae SWAN yn brosiect sy'n cael ei gynnal gan fudiad Cymorth i Fenywod. Mae'r prosiect yn cynorthwyo menywod sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol yn Abertawe, gyda'r nod o wella diogelwch a llesiant menywod.

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Siop Un Stop Cam-drin Domestig Abertawe, 35-36 Stryd Singleton Abertawe; mae'n cynnig apwyntiadau 1:1, darpariaeth allgymorth a chymorth mewn argyfwng.

Ymhlith y grwpiau a gefnogir mae:

- Pob dynes sy'n cael ei hecsbloetio'n rhywiol yn Abertawe, gan gynnwys gweithwyr rhyw ar y stryd, gwaith rhyw mewn parlwr, ar-lein a gwaith Camera.

## Gwasanaethau a ddarperir

Mae'r gwasanaeth yn cynnig y canlynol:

- Cyngor ar ddiogelwch personol
- Condomau, bwyd, dillad ac eitemau hanfodol eraill
- Mynediad i adroddiadau a rhybuddion gan Ugly Mugs i hybu diogelwch
- Eiriolaeth a chefnogaeth i fynd i'r afael ag anghenion unigolion
- Help gydag adrodd am bryderon neu droseddau i'r heddlu

Mae menywod hefyd yn cael cymorth i gael mynediad at y canlynol:

- Opsiynau tai
- Gwasanaeth Iechyd Rhywiol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Asiantaethau Cyffuriau ac Alcohol
- Canolfan Gyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhywiol

## Gweithlu

- Tri o weithiwr cymorth 2.5 CLlA
- Un cydlynydd gwirfoddol 0.7 CLIA
- Un cynorthwyydd gweinyddol 0.4 CLIA
- Un arweinydd sifft 0.2 CLlA

## Maint a llwyth achosion

- 125-190 o fenywod y flwyddyn



## Gwersi a ddysgwyd

Mae cydweithio a rhwydweithio'n agos ag iechyd a gofal cymdeithasol, yr heddlu, adrannau'r cyngor a sefydliadau eraill yn y 3ydd sector yn allweddol

# Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd a Arweinir gan Nyrsys
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

### Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Sefydlwyd yn 2020

Gwasanaeth yn seiliedig ar drawma a arweinir gan nyrsys yn cydweithio â gwahanol fudiadau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a sefydliadau'r 3ydd sector.

Sefydlwyd Grŵp Llywio, sy'n cynnwys gwahanol broffesiynwyr gofal iechyd, grwpiau defnyddwyr gwasanaeth ac arweinydd gweithredol Cynhwysiant Iechyd y Bwrdd Iechyd.

Ymhlith y grwpiau a gefnogir mae:

- Pobl sy'n profi digartrefedd
- Cymunedau Roma, Sipsiwn a Theithwyr
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Gweithwyr Rhyw

### Gwasanaethau a ddarperir

- Asesiad iechyd cychwynnol ac adolygiadau dilynol
- Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddarparu a'i addasu i ddiwallu anghenion unigol
- Cynorthwyo gyda chofrestru gyda Meddygfeydd Teulu
- Staff wedi'u hyfforddi mewn therapi Dadsensiteiddio Symudiad Llygaid ac Ailbrosesu (ar gyfer triniaeth PTSD)
- Cynhelir clinigau mewn sawl lleoliad i dargedu grwpiau gwahanol e.e. Eton House, Pobl, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, Ysgolion, Meddygfeydd Teulu

### Gweithlu

- Uwch Nyrs - 1 Cyfwerth â Llawn-amser B8A
- Nyrs Iechyd Meddwl - 1 CLlA B7
- Nyrsys Cyffredinol - 2 CLlA B6
- Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd 3 CLlA B3
- Gweinyddwr 1 CLlA B3

### Maint a llwyth achosion

- 1560 y flwyddyn




### Gwersi a ddysgwyd

- Pwysigrwydd bod staff wedi'u hyfforddi i ddeall trawma
- Hyfforddwyd tri aelod o staff mewn Therapi Datguddio Naratif sy'n arf amhrisiadwy
- Cryfderau staff a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd yn bennaf a chymorth trawsadrannol
- Goruchwyliaeth tîm misol ar gyfer trawma dros eraill a llesiant parhaus
- Cefnogaeth ar lefel weithredol yn ogystal â thîm Iechyd y Cyhoedd a chyfarwyddwr gofal sylfaenol

# Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gwasanaeth Iechyd y Digartref
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Fe'i sefydlwyd yn 2020 gan Uwch Ymarferydd Nyrsio a Nyrs Gyffredinol mewn cydweithrediad â'r clwstwr.

Darperir y gwasanaeth ym Meddygfa Oakfield trwy Wasanaeth Estynedig Lleol ar gyfer pobl ddigartref sydd ddim yn defnyddio gwasanaethau yng Nghasnewydd.

Mae ymagwedd practis cyfan a thîm amlddisgyblaethol, ynghyd â gweithio mewn partneriaeth ag elusennau a chynghorau digartrefedd, yn sicrhau gofal cynhwysfawr.

## Gwasanaethau a ddarperir

- Gwasanaeth drws-agored, anfeirniadol
- Sgrinio iechyd
- Gwiriad iechyd corfforol llawn
- Gwiriad gwaed llawn
- Mae tîm gweinyddol yn canfod hanes iechyd cleifion trwy gysylltu â meddyg teulu blaenorol
- Trefnir apwyntiad dilynol i drafod canlyniadau ac anghenion iechyd ychwanegol
- Cynigir apwyntiadau mewn meddygfeydd neu trwy allgymorth
- Cyfeirio at wasanaethau a therapïau eraill

## Gweithlu

- Uwch Ymarferydd Nyrsio B8 (0.2 Cyfwerth â Llawn-amser)
- Cefnogaeth weinyddol (0.2 CLlA)
- Yn ogystal â'r uchod, gall unrhyw feddygon teulu yn y feddygfa weld cleifion os oes angen.
- Gwasanaeth wedi'i gyd-ddatblygu ac yn seiliedig ar brofiadau cleifion



## Maint a llwyth achosion

- 211 o gleifion ers 2020 (symudodd 121 i ardaloedd eraill.
- 90 o gleifion ar hyn o bryd (parhaol)
- Tua 5 asesiad newydd bob mis = amcangyfrif o 60 asesiad newydd y flwyddyn



## Gwersi a ddysgwyd

- Mae 'Digartrefedd Cudd' yn her. Os yw pobl yn cysgu allan o'r golwg mewn coedwigoedd neu gaeau, ni allant gyrchu gwasanaethau (e.e. adrannau brys a damweiniau) sydd sawl taith fws i ffwrdd.
- Mae staff anfeirniadol, angerddol a chefnogol yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth a chreu gwasanaethau hygyrch a derbyniol
- Mae angen meddwl yn wahanol am ofal iechyd a mynediad. Siarad â chleifion ac asiantaethau partner i gyd-greu gwasanaethau sy'n addas i'r diben
- Mae cyd-gynhyrchu a chefnogaeth gan ystod eang o sefydliadau yn hanfodol i oresgyn rhwystrau
- Mae cefnogaeth gan Feddygon Teulu, ynghyd â phrosesau a llwybrau syml, fel proses gofrestru hawdd, yn alluogwyr hollbwysig i ddarparu gwasanaeth llwyddiannus
- Mae cymorth Gweithredol

# Model Llesiant Cymunedol
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### Disgrifiad o'r Gwasanaeth

Mae'r Model Llesiant Cymunedol yn cynnwys rhaglenni wedi'u cyd-gynllunio a'u darparu ar gyfer y cymunedau mwyaf anghenus. Mae rhaglenni'n targedu unigolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.

Mae'r model yn cael ei dreialu yn ardal ddwyreiniol BIP Besti Cadwaladr (Wrecsam a Sir y Fflint) ac mae'n darparu cymorth i'r canlynol:

- Pobl sy'n ddigartref
- Pobl sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol (gan gynnwys troseddwyr difrifol a chyn-droseddwyr)
- Pobl â salwch meddwl cymhleth neu ailadroddus a dibyniaeth
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid
- Pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol

### Gwasanaethau a ddarperir

- O fewn cyrraedd - 2 hostel
- Mynediad agored ar sail galw-heibio – darparu gweithgareddau ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol, amserlen o ymyriadau therapiwtig, e.e. celfyddydau, adrodd straeon a gweithgareddau natur, tra'n cael mynediad at gymorth proffesiynol ar gyfer iechyd, llesiant ac achosion argyfwng.
- Gwiriadau iechyd, amser meddygon teulu, rhaglenni llesiant wedi'u teilwra'n benodol
- Gofal sylfaenol a hyfforddiant ar gyfer cwnsela trawma yn y gymuned – un-i-un ac mewn grŵp
- Rhaglenni grŵp yn canolbwyntio ar lesiant emosiynol, adferiad creadigol, ataliad, addysg a meddygaeth ar gyfer ffordd o fyw
- Cefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer troseddwyr difrifol, cleifion iechyd meddwl, ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd angen cymorth iaith a dysgu.

### Gweithlu

Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ariannu ar hyn o bryd.

Nododd cynllun peilot 2 flynedd ofynion staff o £250,000 mewn achos busnes:

- 1 Arweinydd Busnes Cyfwerth â Llawn-amser
- 1 Arweinydd Clinigol CLIA
- 1 Arweinydd Gweithredol CLIA
- 2 Feddyg Teulu ar gyfer Cynhwysiad Iechyd CLIA
- 1 nyrs clefyd cronig CLIA
- 1 Llywiwr Cymunedol ac Arweinydd Hyrwyddwyr Cymunedol CLIA

### Maint a llwyth achosion

- Rhaglen Cysylltiad Cymunedol galw-heibio: 50 o unigolion / sesiynau
- Rhaglen Achos ac Adferiad Gofal Sylfaenol: 200 o gleifion dros gyfnod pilot o chwe mis

### Gwersi a ddysgwyd

- Ystyried Elw Cymdeithasol yn sgil Buddsoddiad (SROI) fel dull o werthuso effaith ehangach
- Mae dull sy'n seiliedig ar drawma yn cydnabod nad yw rhai ohonom sydd ag anghenion cymhleth ac unigolion sydd yn y broses o ddod dros drawma, yn barod i gymryd rhan mewn lleoliadau clinigol ffurfiol
- Cydweithio â sefydliadau partner i feithrin ymddiriedaeth, creu ymagweddau partneriaeth, a gwella cynllunio ar y cyd.
- Gall cyfrifoldeb a noddwr ar lefel bwrdd helpu